**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**

**PWNC:** **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 7 TACHWEDD 2019 DYDD IAU, 7 TACHWEDD 2019**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: B. SUMMERS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: D. Bevan
G. L. Davies
D. Hancock
W. Hodgins
J. P. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

A: Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu a Stadau
Rheolwr Tîm - Rheoli Datblygu
Rheolwr Tîm - Amgylchedd Adeiliedig
Arweinydd Tîm - Rheoli Datblygu
Cyfreithiwr Gwasanaethau Masnachol
Arweinydd Tîm Stadau/Prisiant

**Siaradwyr Cyhoeddus**

Terry Morgan (Asiant) a'r Cynghorydd G. Collier (Aelod Ward) - Cais Rhif C/2019/0225 – 5 Surgery Road, Heol Cwmcelyn, Blaenau

Rhian Lees, Grŵp RPS – Cais Rhif C/2019/0237 – Canolfan Iechyd Tredegar ac Ysbyty Cyffredinol Tredegar

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na wnaed unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Moore a G. Thomas. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS HYDREF 2019</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau at y Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng nghyswllt y fferm solar arfaethedig yn Fferm Wauntyswg, Abertyswg (Cais Rhif CON/2006/0001). Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi gwrthwynebu'r cynnig ar y sail y byddai maint y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar y tirlun lleol. Roedd CADW hefyd wedi gwrthwynebu a chytunodd yr Arolygydd Cynllunio gyda'r dadleuon hyn ac roedd wedi argymell i Weinidogion Cymru y dylid gwrthod y cais. Fodd bynnag roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cymeradwyo'r cais.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog iddo ysgrifennu at y Gweinidog ar ran y Pwyllgor gyda gwahoddiad i ymweld â'r safle. Derbyniwyd llythyr yn gwrthod y gwahoddiad. Darllenodd y Swyddog gynnwys y llythyr a chylchredeg copi i Aelodau.<br><br>Mynegodd Aelod bryder a theimlai fod penderfyniad y Gweinidog yn lleihau rôl y Pwyllgor Cynllunio a Swyddogion Cynllunio. Cyfeiriodd at Bolisi Cynllunio Cymru a dywedodd y gobeithiai y | |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai canllawiau'r Polisi yn galluogi Awdurdodau Lleol i gadw elfen o reolaeth dros leoliad ffermydd solar.<br><br>Dywedodd y Swyddog y caiff ymateb yr Awdurdod i'r Drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei anfon at Lywodraeth Cymru yr wythnos nesaf. Un newid sylweddol oedd bod yr Awdurdod yn awr mewn ardal a gytunwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy ac fel canlyniad mae'n debygol y byddai'n gweld llif o geisiadau am dyrbinau gwynt a ffermydd solar yn y dyfodol.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan gadarnhaodd y Swyddog y caiff pryderon Aelodau eu cynnwys yn ymateb yr Awdurdod ar y Drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac mae sesiwn wybodaeth i Aelodau Gweithredol a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf hefyd yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, oherwydd maint y parc solar arfaethedig dywedodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu ei fod yn cael ei ddosbarthu fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ac felly'n rhan o system wahanol i'r broses gynllunio arferol. Fodd bynnag, derbyniwyd cais Adran 73 erbyn hyn i amrywio'r amser a roddwyd o 30 i 40 mlynedd o adeiladu a dechrau gweithredu'r datblygiad, gan felly ymestyn y cynnig gwreiddiol gan 10 mlynedd. Byddai'r cais yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio i gael ei ystyried maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **<u>DIWEDDARIAD APÊL CYNLLUNIO: 23 PANTYFFOREST, GLYNEBWY</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Cadarnhaodd fod yr Arolygydd wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith weledol niweidiol annerbyniol ar y dreflun, yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, Polisi DMI(2)b, a bod y cynnig yn gwrthdaro gyda Pholisi DM2. Felly gwrthododd yr Arolygydd yr apêl.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi penderfyniad yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | apêl. | |
| **No. 6** | **<u>RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG 22 AWST 2019 A 18 MEDI 2019</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes, yn cynnwys:-<br><br><u>C/2019/0194 Swyddfeydd Stryd y Bont, Stryd y Bont, Glynebwy</u><br><br>Yn dilyn cais gan Aelod am ddiweddariad ar ddatblygu'r safle, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu y rhoddwyd caniatâd yn 2018 a bod gwaith wedi dechrau ar y safle ac y cafodd nifer o amodau eu cyflawni. Fodd bynnag, roedd oedi oherwydd cyflawni amodau yn ymwneud â wal gadw a'r ardal barcio, gan na chafodd y manylion a gymeradwywyd eu gweithredu. Cadarnhaodd y Swyddog fod trafodaethau'n mynd rhagddynt i ddatrys y materion hyn.<br><br><u>C/2019/0152 22 Stryd Marine, Cwm, Glynebwy</u><br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu fod y garej wedi ei hadeiladu'n rhannol pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol ac wedi'i gwblhau ers hynny. Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gwrthod y cais ar sail effaith niweidiol ar gymdogion, ac mae Swyddogion yn awr mewn gohebiaeth gyda'r ymgeisydd am opsiynau i symud ymlaen.<br><br><u>C/2019/0200 Cyn Swyddfa'r Cyngor Dosbarth, Stryd Fawr, Blaenau</u><br><br>Gofynnodd Aelod am eglurhad nad oedd hwn yn HMO. Cadarnhaodd y Swyddog fod y cais ar gyfer gwahanol fathau o fflatiau hunangynwysedig gyda darpariaeth parcio a threfniadau mynediad newydd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r rhestr o geisiadau a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig rhwng 22 Awst a 18 Medi 2019. | |
| **No. 7** | **<u>ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu. | |

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau y ceisiadau cynllunio dilynol i Aelodau gyda chymorth sleidiau:-

**Cais Rhif C/2019/0050 – Tir yn Heol Waun-y-Pound a Heol y Coleg, Glynebwy - Datblygiad Preswyl o 227 Uned yn cynnwys Gweithiau Cysylltiedig**

Cyflwynwyd y cais gan y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau. Rhoddodd esboniad byr o'r cynllun a threfniadau mynediad. Cadarnhaodd y byddai cais cynllunio pellach ar gyfer y draeniad i'w weithredu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel yr amlinellir yn Argymhelliad 2.

Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r datblygiad ond mynegodd bryder fod y Cytundeb Adran 106 wedi'i gyfyngu i Ysgolion Cynradd Glyncoed a Threhelyg. Dywedodd y dylid cynnwys pob un o'r pedair ysgol gynradd yn yr ardal, sef Rhos-y-fedwen a Rhiw Beaufort, gan y gall plant o'r datblygiad fynychu'r ysgolion hynny.

Dywedodd y Swyddog i'r mater gael ei drafod gyda'r Adran Addysg ac mai'r rheswm pam y soniwyd am y ddwy ysgol oedd mai nhw oedd yr ysgolion dalgylch dynodedig ar gyfer y safle a'u bod yn rhagweld y byddai'r rhan fwyaf o'r plant o'r datblygiad yn mynychu'r ysgolion hynny. Fodd bynnag, maent yn cydnabod fod potensial am effaith ar Rhos-y-Fedwen ac y gallai buddsoddiad ddod o raglen gyfalaf y Cyngor. Maent yn ymchwilio'r mater hwn ar hyn o bryd.

Yng nghyswllt Cytundeb Adran 106, gofynnodd Aelod os oedd cwmpas i'r datblygydd ailnegodi'r swm a gytunwyd pe na byddai'r effaith ar Addysg yn cael ei wireddu.

Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog y cafodd y rhestr taliadau ei chytuno gyda'r datblygydd ac yr oedd yn dderbyniol i'r Adran Addysg i ganiatáu lliniaru pan mae preswylwyr o'r safle yn dechrau effeithio ar wasanaethau addysg. Pe byddai amgylchiadau'n newid, byddai'n agored i gais i amrywio cyflwyno Adran 106 ond byddai angen i hyn gael ei gefnogi gyda thystiolaeth pe byddai'r Cyngor yn cytuno i unrhyw newid.

Mynegodd Aelod bryder fod yr Adran Addysg wedi cyfeirio at y 'dalgylch' pan mae proses dderbyn bresennol Blaenau Gwent yn caniatáu i rieni wneud cais i anfon eu plant i unrhyw ysgol.

Ymgymerodd y Swyddog i godi'r mater gyda'r Adran Addysg.

Dilynodd trafodaeth fer pan ddywedodd Aelod ei bod yn siomedig nad oes unrhyw fyngalos wedi eu cynnig ar gyfer y safle gan fod llawer o alw amdanynt ym mhob rhan o'r Fwrdeistref.

Cyfeiriodd Aelod arall hefyd at ddarparu 20% o unedau tai fforddiadwy a gofynnodd os y byddai darpariaeth ar gyfer cartrefi ar rent.

Mewn ymateb esboniodd y Swyddog y byddai trafodaeth bellach ar y manylion daliadaethau.

Mynegodd y Cadeirydd bryder am fynediad i'r safle oddi ar heol Waun-y-Pound a chadarnhaodd y Rheolwr Tîm Amgylchedd Adeiledig yr ystyriwyd fod lôn aros arbennig ar gyfer troi i'r dde yn addas ar gyfer datblygiad o'r math hwn a bod yr ymgeisydd wedi ailgynllunio'r mynediad i ddarparu ar gyfer hyn. Mae hefyd angen rhai gwelliannau i heol Waun-y-Pound a chaiff y rhain eu darparu drwy amod cynllunio.

PENDERFYNWYD y dylai fod yn ofynnol i'r datblygydd ymrwymo i ddyletswydd A106 yng nghyswllt cyfraniad i'r Adran Addysg i liniaru am yr effaith ar gyfer datblygu ysgolion cynradd lleol.

PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i **ROI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.

**Cais Rhif C/2018/0323 – Tir ger Sunny Rise, Heol Merthyr, Tredegar, NP22 3AE – Annedd ar Wahân, Mynediad Cerbyd a Pharcio**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau y cais a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo, yn groes i argymhelliad y Swyddog, yn y Pwyllgor Cynllunio ar 3 Hydref 2019. Fodd bynnag, yn seiliedig ar benderfyniad y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais, cynghorodd y Swyddog y dylid rhoi cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlygir yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.

**Cais Rhif C/2019/0225 – 5 Surgery Road, Heol Cwmcelyn, Blaenau, Abertyleri, NP13 3DD – Estyniad Deulawr Arfaethedig ar Ddrychiad Ochr ac Estyniad Un Llawr yng nghefn yr Annedd**

Cafwyd trafodaeth fer parthed y polisi siarad cyhoeddus ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, pan esboniodd y Cyfreithiwr fod y polisi yn dweud fod yn rhaid i Aelodau Ward, pan fyddant yn bresennol i annerch y Pwyllgor, wneud hynny cyn y siaradwr cyhoeddus.

Anerchodd y Cynghorydd G. Collier y Pwyllgor a chyfeiriodd at y cynlluniau gwreiddiol am yr estyniad arfaethedig sy'n rhoi estyniad ochr deulawr ac ailddylunio'r safle i roi annedd gyda ffenestri y ddwy ochr i'r drws blaen. Mynegodd y Cynghorydd Collier yr ystyriwyd fod y cynlluniau hyn yn ormodol ac yn annerbyniol yn weledol ac yn annhebyg o gael eu hargymell ar gyfer cymeradwyaeth. Felly, cafodd cais cynllunio ei gyflwyno gyda chynlluniau diwygiedig, a olygai y caiff yr estyniad ei osod yn ôl o'r annedd flaenorol a hefyd ostwng uchder to yr estyniad. Dywedodd y credai y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ymddangosiad cyffredinol yr annedd.

Mynegodd bryder hefyd fod y cynlluniau gwreiddiol yn cynnig estyniad o 4m, ac y caiff hyn hefyd ei ystyried yn ormodol. Mae'r cais yn awr yn cynnig estyniad 3.4m. Fodd bynnag, dywedodd na fyddai'r estyniad yn achosi unrhyw broblemau i adeiladau cyfagos ac ar y sail hwn gofynnodd i'r Pwyllgor rai caniatâd cynllunio.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, anerchodd Mr. Terry Morgan, yr asiant sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd, y Pwyllgor. Dywedodd fod yr estyniad arfaethedig wedi'i osod yn ôl o'r annedd wreiddiol a bod y to hefyd yn is, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Dywedodd nad oedd unrhyw broblemau 'edrych dros' adeiladau cyfagos, a drwy ymestyn elfen ochr yr annedd, na fyddai unrhyw effaith ormodol ar y cymdogion, hefyd fel a argymhellir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Dywedodd fod gan yr annedd ardd ochr fawr ac felly na fyddai unrhyw ostyngiad sylweddol mewn gofod amwynder. Byddai'r holl ddeunyddiau a gorffenion a ddefnyddir yn adlewyrchu cymeriad yr eiddo ac yn cyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae'r cynnig i drawsnewid y tŷ bychan hwn i gartref teulu cymedrol yn rhesymol a byddai'n welliant i'r ardal leol a hefyd yn cydymffurfio gyda'r

Canllawiau Cynllunio Atodol. Felly gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried y cais a gobeithio ddod i benderfyniad ffafriol.

Dywedodd Aelod ei bod yn llwyr gefnogi'r cais gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio gydag arddulliau amrywiol presennol tai ar Surgery Road. Fodd bynnag, dywedodd ei bod hefyd yn teimlo y byddai ymddangosiad y datblygiad yn cael ei wella pe byddai blaen yr estyniad a'r to yn debyg i'r annedd bresennol. Daeth i ben drwy ddweud ei bod yn llwyr gefnogi'r cais a chynigiodd y dylid rhoi caniatâd cynllunio.

Cefnogodd Aelod arall y cynnig a hefyd gytuno y dylai'r estyniad gydymffurfio gyda'r annedd bresennol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau, os yw Aelodau'n penderfynu cytuno i'r cais, y byddai hynny yn erbyn holl egwyddorion dylunio da a chanllawiau o fewn y Cynlluniau Cynllunio Atodol Deiliaid Tai. Cadarnhaodd hefyd y byddai unrhyw newidiadau i'r cynlluniau ac yn y blaen yn amodol ar gais pellach.

PENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio.

**Cais Rhif C/2019/0160 – Canolfan Iechyd Tredegar ac Ysbyty Cyffredinol Tredegar, Park Row, Tredegar, NP22 3NG - Cais am ganiatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer Dymchwel Rhannol Hen Adeilad Ysbyty Cyffredinol Tredegar a Dymchwel Llawn Canolfan Iechyd Tredegar**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm - Rheoli Datblygu y cais i Aelodau a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo. Yn neilltuol, soniodd am y ffaith y caiff yr hen ysbyty cyffredinol ei gydnabod fel adeilad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r Ardal Gadwraeth ac felly bod tybiaeth o blaid cadw'r adeilad. Soniwyd hefyd am y gwrthwynebiadau a godwyd gan y Gymdeithas Fictorianaidd a Chymdeithas yr Ugeinfed Ganrif i ddymchwel estyniadau cynharach cyn-rhyfel yr ysbyty hefyd, ynghyd â'u pryderon am y dull dylunio a maint yr adeilad a gynigir yn ei le.

Dywedodd i'r cynnig am ddymchwel rhannol yr ysbyty cyffredinol gael ei asesu ar yr un meini prawf eang â'r cynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig ac, o bwyso a mesur popeth, yr ystyrir fod cyfiawnhad dros y cynnig ac y byddid yn cadw cymeriad ac ymddangosiad yr Ardaloedd Cadwraeth yn amodol ar gymeradwyo'r manylion priodol ar gam faterion a gadwyd.

Soniwyd hefyd am y rheidrwydd i osod amod sy'n atal gwaith dymchwel rhag cael ei wneud cyn i'r holl faterion a gadwyd ar gyfer y ganolfan iechyd a llesiant arfaethedig gael eu cymeradwyo a bod contract yn ei le ar gyfer y gwaith ailddatblygu.

Dywedodd hefyd y canfuwyd nifer o rywogaethau ystlumod o fewn yr adeilad ac y cadarnhawyd fod y mesurau lliniaru ystlumod arfaethedig yn dderbyniol. Gellid sicrhau'r mesurau lliniaru yn ddigonol drwy amod i atal unrhyw niwed i'r rhywogaeth ystlumod.

Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r datblygiad ac iddo fynychu'r ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r datblygwyr wedi dangos cydymdeimlad gyda hanes y safle ac wedi gwrando ar bobl Tredegar.

PENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.

**Cais Rhif C/2019/0237 – Ysbyty Cyffredinol Tredegar, Canolfan Iechyd Tredegar a Pharc Bedwellte, Park Row, Tredegar, NP22 3NG – Cais Amlinellol ar gyfer Dymchwel Canolfan Iechyd Tredegar, Dymchwel Rhannol Ysbyty Cyffredinol Tredegar a Chodi Canolfan Iechyd a Llesiant Dosbarth D1 newydd yn cynnwys Diwygio Mynediad, Parcio Ceir, Tirlunio a Gwaith Ategol (pob mater heblaw Mynediad yn rhai wedi'i cadw)**

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm - Rheoli Datblygu y cais i Aelodau a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Yn neilltuol, eglurodd mai dim ond egwyddor y datblygiad a mynediad sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r cais amlinellol gyda phob mater arall yn ymwneud â chynllun, maint, ymddangosiad a thirlunio wedi'u cadw i'w hystyried yn y dyfodol.

Rhoddodd drosolwg o'r ymagwedd dylunio at y ganolfan iechyd a llesiant arfaethedig a thynnu sylw at y cynnig am fynediad cerbydau i'r safle, a ystyrir yn dderbyniol yn amodol ar leiniau gweledledd priodol. Soniwyd hefyd am bryderon Rheolwr Tîm Amgylchedd Adeiledig am y nifer dangosol o ofodau parcio car arfaethedig a dywedodd y gallai'r mater gael ei ystyried yn fanylach ar y cam materion a gadwyd.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, anerchwyd y Pwyllgor gan Rhian Lees

o Grŵp RPS, yn gweithredu ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Keir Construction.

Dywedodd fod y ceisiadau gerbron Aelodau hefyd yn cynnig dymchwel yr adeiladau presennol ar y safle a chodi canolfan iechyd a llesiant o'r math diweddaraf. Mae'r cynnig yn rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i wella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a dod â nhw'n nes at gartrefi pobl. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn falch iawn i fod yn rhan o'r newid sylweddol hwn mewn darpariaeth gofal iechyd ac yn croesawu'r cyfle y mae'n ei gynnig i ddod â safle segur gofal iechyd yma'n ôl i ddefnydd buddiol, yn neilltuol o gofio am ei gyd-destun hanesyddol.

Fel tîm dylunio maent yn ymwybodol iawn o, ac yn sensitif i, falchder Tredegar yng nghysylltiad y dref gyda ffurfio'r GIG. Er mai cadw ac ailbwrpasu'r adeiladau presennol fyddai wedi bod y dewis cyntaf ar gyfer y prosiect, mae anghenion clinigol a chost o ddod â nhw i gyflwr 'addas i'r diben' wedi golygu na fu hyn yn bosibl.

Cyflwynwyd amlinelliad y cais i ailddatblygu'r safle ar y cam hwn i roi sicrwydd y bydd y cynllun a gynigir yn parchu ei gyd-destun o fewn dwy ardal gadwraeth a'i agosatrwydd ar Barc a Gerddi Bedwellte. Mae IBI, penseiri'r cynllun, wedi paratoi dyluniad manwl a fydd gobeithio yn lliniaru unrhyw bryderon am sut y bydd yr adeilad yn cydweddu â golwg y stryd. Mae'r dyluniad arfaethedig yn cadw rhan o adeilad ysbyty gwreiddiol 1904 a gobeithir y bydd hyn yn ffurfio'r mynediad i'r ganolfan ac yn dod yn amgueddfa fyw i Dredegar a'r GIG.

Bu'r Bwrdd Iechyd a'r tîm ehangach mewn cysylltiad gyda'r gymuned leol ers y Gwanwyn a gwyddom am rai o'r materion sydd o bryder i breswylwyr yn cynnwys parcio, ymyrryd drwy'r cam adeiladu a'r effaith ar fywyd gwyllt.

Yng nghyswllt parcio, mae 70 gofod yn cael eu cynnig ar hyn o bryd a bydd y rhain ar gyfer staff ac ymwelwyr fel ei gilydd. Bydd llawer o staff yn rhan-amser neu ddim ond yn defnyddio'r ganolfan yn achlysurol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus fod nifer y lleoedd a gynigir yn ddigonol. Serch hynny, caiff parcio ei ystyried yn fanylach ar y cam materion a gadwyd drwy gymeradwyo cynllun y safle.

Yn ystod y cyfnod adeiladu bydd Kier yn defnyddio maes parcio

| | | |
|---|---|---|
| | Clwb Rygbi Tredegar fel eu lloc safle, i gynnwys parcio contractwyr a bydd hyn yn lleihau'n sylweddol yr effaith ar breswylwyr lleol.<br><br>Yng nghyswllt bywyd gwyllt, mae adeiladau presennol yr ysbyty yn gartref i nifer o rywogaethau ystlumod. Cyn ei ddymchwel, bydd mesurau lliniaru yn eu lle i sicrhau na fydd unryw effaith arnynt. Gofynnir hefyd am y trwyddedau angenrheidiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y bydd unrhyw waith yn digwydd.<br><br>Yn gyffredinol, dywedodd ei bod yn falch iawn i nodi argymhellion cadarnhaol y Swyddogion ar gyfer y ddau gais ac ers cysylltu gyntaf gyda Swyddogion yn yr Adran Cynllunio ym mis Ionawr, maent wedi rhoi cyngor pragmatig, cryno a chlir ar y ffordd orau drwy'r broses ac yn gwerthfawrogi'n fawr y safiad agored a chadarnhaol a gymerwyd. Gobeithiai y gall yr Aelodau gefnogi'r argymhellion a chymeradwyo'r ceisiadau.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd yr Arweinwyr Tîm Priffyrdd a Datblygu bwyntiau a godwyd gan Aelod am y trefniadau parcio ar y safle.<br><br>Cefnogodd Aelodau y cais a<br><br>PHENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu. | |
| **No. 8** | **MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH/HYFFORDDIANT AELODAU**<br><br>Oherwydd yr etholiad arfaethedig, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau y bwriedir cynnull ymweliad yr Aelodau i awdurdod cynllunio cyfagos a'r digwyddiad hyfforddiant ar HMO yn 2020. Mae hefyd yn debygol y byddai cyfarfod mis Ionawr 2020 yn cael ei ganslo. | |
| **No. 9** | **EITEM(AU) EITHRIEDIG**<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem ddilynol o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y bydd datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 10** | **<u>ACHOSION CAU GORFODAETH RHWNG 24 MEDI 2019 A 25 HYDREF 2019</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r wybodaeth felly gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra trafodir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr Awdurdod) a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |